# UNED : Y LLO – MAETHU A PHORTHI

## CYFLWYNIAD

- System fagu artiffisial
- System fagu naturiol

Mae porthiant yn gost anferth mewn unrhyw system eidion. Gall maethu a phorthi priodol yn yr holl gyfnodau allweddol sicrhau tyfiant a phesgi gorau posibl, tra'n cadw'r costau i lawr i sicrhau proffidioldeb.

## CYFNOD ALLWEDDOL YN Y GYLCHRED GYNHYRCHU

- Y CYFNOD MAGU - yr amser hyd at 200kg pwysau byw, fel arfer yn ymwneud â'r cyfnod magu hyd at ddiddyfnu
    - ar y fuwch neu
    - yn artiffisial

## MAETHU A PHORTHI

Mae'r holl anifeiliaid angen :

- Egni
- Ffibr
- Protein
- Mwynau a fitaminau

Mae swm a chyfrannedd pob un yn amrywio yn unol â'u cyfnod, cyfradd tyfiant neu besgi.

## **COLOSTRWM**

Os bydd yn cael ei fagu gan fuwch neu'n artiffisial, mae'r llo newydd eni angen digon o golostrwm o ansawdd uchel cyn gynted â phosib ar ôl y geni - yn bendant o fewn y 24 awr gyntaf. Mae colostrwm yn :-

- Borthiant maethlon, treuliadwy â chrynodedig uchel – sy'n gyfoethog mewn protein, a fitaminau'n enwedig
- Ffynhonnell o lactoglobwlinau a gwrthgyrff cysylltiol eraill sy'n rhoi imiwnedd i'r llo yn erbyn clefydau.

**<u>PORTHI LLO SY'N CAEL EI FAGU'N ARTIFFISIAL</u>** - dylai lloi gael mynediad at laeth cyflawn lle mae'n bosibl, ond, ar fferm sydd heb wartheg godro, llaeth gosod fydd prif gynheiliad deiet y llo yn wythnosau cyntaf ei fywyd. Fel arfer, mae llaeth gosod o ansawdd da yn seiliedig ar laeth sgim sych gyda braster wedi ei ychwanegu ato. Mae ansawdd y cynnyrch yn dibynnu ar y cynhwysion a'r driniaeth yn ystod y broses sychu - bydd tymereddau uchel yn aml yn 'dadnatureiddio' protein llaeth ac yn lleihau'r gwerth maethol. Gall hefyd, o bosibl, gynyddu'r perygl o ysgothi oherwydd organebau e.e. E. Coli.

Er bod y system borthi a ddefnyddir yn dibynnu ar ffactorau e.e. y nifer o loi sy'n cael eu magu, cynllun a'r math o adeilad, yn ogystal â'r llafur sydd ar gael, gall lloi gael eu magu'n unigol neu mewn batsys a'r systemau porthi'n amrywio o borthi unigol i ymborthwyr awtomatig.

Dylid dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr wrth wneud y canlynol – glastwreiddio powdr llaeth, swm ac amlder y porthi, ond dylai'r pwyslais fod ar ddatblygu system hylendid i osgoi anhwyldebau treulio ac ysgothi, a dilyn trefn reolaidd.

O'r wythnos gyntaf, dylai dŵr ffres a dwysfwydydd blasus ar ffurf pelennau neu gymysgedd bras fod ar gael. Y bwriad yw annog datblygiad y rwmen yn gynnar er mwyn medru diddyfnu'r llo, naill ai'n sydyn neu'n raddol, cyn gynted â phosibl pan mae'n bwyta 0.7kg o ddwysfwyd y dydd. Dylai gwair neu wellt glân fod ar gael, a gellid cwblhau'r diddyfnu mor gynnar â 5 wythnos oed.

Unwaith mae wedi ei ddiddyfnu, rhaid porthi'r llo â dwysfwyd, ond yn raddol gellir cyflwyno porfwyd neu borthiant amgen wrth i'r llo yn cyrraedd 3 mis oed.

**<u>PORTHI LLO SY'N SUGNO</u>** - dylai cyflenwad llaeth o ansawdd da gynnal y llo yn gynnar yn ei fywyd. Bydd brid y fuwch, ei chyflwr a'r porthiant yn pennu faint o laeth fydd ar gael. Erbyn i'r llo sugno gyrraedd 4 mis oed, fodd bynnag, dylai hanner ei anghenion ddod o borfa, silwair neu ddidolborthi

- Porfa - porfa o ansawdd uchel - mae porfa yn yr haf, ond, efallai gall cnydau porfwyd fel sofl erfin neu gêl yn yr hydref a gaeaf, ddarparu porfa o ansawdd i gynyddu pwysau a chyflwr yn gyflym. Gellir caniatáu i lo fynd i bori glaswellt neu gnydau o flaen y gwartheg - didolbori ymlaen llaw
- Silwair – silwair o ansawdd uchel yn y gaeaf
- Didolborthi - mae didolborthi'n help i ddatblygu'r rwmen, a gall arwain at dyfiant llo gwell. Hefyd mae'n paratoi'r llo ar gyfer ei ddiddyfnu er mwyn lleihau'r straen ac osgoi colli perfformiad. Dylai'r didolborthi fod yn :
    - Flasus e.e. triagl
    - Uchel mewn ffibr treuliadwy e.e. ceirch, mwydion betys siwgr

- Yn weddol uchel mewn protein - 14-16% - gyda chyfrannedd uchel o brotein aniraddiadwy e.e. soia
- Cynnwys mwynau a fitaminau digonol
- Ffres

PORTHIANT NODWEDDIADOL

- Porfa - fel arfer, prif gynheiliad yn ystod y cyfnod tyfu, gan mai dyna'r porthiant rhataf
- Silwair neu wair - fel arfer y brif ffynhonnell o borthiant yn y gaeaf - rhaid i'r ansawdd maethol fod yn uchel ar gyfer tyfu neu besgi cyflym, ond mae ansawdd mwy cymedrol yn dderbyniol ar gyfer cyfradd tyfiant is mewn gwartheg 'stôr'. Mae gwenith neu gorn cnwd cyfan yn gallu darparu porthiant sydd rhywle rhwng silwair porfa a dwysfwydydd
- Gwellt – mae'n chwarae rhan yn neiet gaeaf llo sy'n tyfu, ond rhaid digolledu gwerth maethol gwael y gwellt drwy ddefnyddio dwysfwyd digonol o ansawdd priodol
- Cnydau porfwyd - yn enwedig mewn systemau awyr agored yn y gaeaf. Mae cnydau fel sofl maip neu gêl yn golygu cynhyrchu porthiant o ansawdd uchel, dwysedd stocio trwm a phorthiant gaeaf amgen, rhatach. Gall grawnfwyd sydd wedi ei dyfu fel porfwyd gynhyrchu silwair o ansawdd uchel, a gall cnydau gwreiddiau e.e. porthiant betys gynhyrchu cnwd mawr a bod yn uchel mewn egni
- Dwysfwyd - yn aml yn chwarae rôl allweddol yn neietau magu, ac yn medru bod yn rawnfwyd e.e. gwenith, rhygwenith, barlys neu geirch ar gyfer egni, a soia, bys y blaidd, ffa, pys, blawd rêp neu had llin ar gyfer protein. Mae'r dewisiadau eraill yn gyfansoddion neu flendiau wedi eu fformiwleiddio yn gyfleus ond yn aml yn ddrud iawn

PRIF BORTHIANT EGNI

| **Porthiant** | **Cynnwys egni - EM MJ/kg CS** | **Startsh %** | **Siwgr %** |
|---|---|---|---|
| ***India corn (grawn)*** | 14.3 | 71 | - |
| ***Gwenith*** | 13.8 | 69 | - |
| ***Bara*** | 14 | 69 | - |
| ***Tatws*** | 13.5 | 62 | 8 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ***Barlys*** | 13.2 | 59 | - |
| ***Blawd bisged*** | 15 | 49 | 9 |
| ***Betys siwgr*** | 12.3 | - | 69 |
| ***Porthiant betys**** | 12.1 | - | 65 |
| ***Silwair corn**** | 11.8 | 35 | - |
| ***Mwydion betys*** | 12.5 | - | 20 |
| ***Gwenith cnwd cyfan**** | 11 | 25 | - |
| ***Blawd gwenith*** | 11.5 | 27.5 | - |

* sylwer – mae'r gwerthoedd hyn ar sail cynnwys sych

PRIF BORTHIANT PROTEIN

| **Porthiant** | **Cynnwys egni - EM MJ/kg CS** | **Protein amrwd %** | **Startsh a siwgr %** |
|---|---|---|---|
| ***Distyllwyr corn neu wenith*** | 14.8 / 13.5 | 28 / 32 | - |
| ***Soia*** | 13.8 | 52 | 14 |
| ***Bys y blaidd*** | 14.3 | 38 | 13 |
| ***Ffa*** | 13.8 | 29 | 47 |
| ***Pys*** | 12.8 | 24 | 53 |
| ***Had llin*** | 13 | 37 | 11 |
| ***Blawd had rêp*** | 12.1 | 38.5 | 14.5 |
| ***Wrea*** | 0 | 287 | 0 |
| ***Silwair corn**** | 11.8 | 35 | - |
| ***Mwydion betys*** | 12.5 | - | 20 |

- Porthiant a phorthi – dylid porthi deiet gytbwys – dylai'r deiet fod yn gytbwys mewn

- Ffibr - ffibr byr e.e. mae gwellt mân mewn deiet yn sicrhau fod y rwmen yn actif ac iach, ac yn osgoi gormod o asidedd er enghraifft
- Egni – cyfuniad o startsh e.e. grawnfwyd a ffibr treuliadwy e.e. mae betys siwgr yn cynyddu’r cynyddbwysau
- Protein - rhaid i ddiraddiad protein gyd-weddu â’r ffynhonnell egni i sicrhau poblogaeth micro-organebau actif ac iach yn y rwmen e.e. mae blawd rêp neu wrea yn diraddio’n gyflym yn y rwmen ac yn cydweddu â grawnfwyd neu datws yn dda
- Mwynau a fitaminau

FFYNONELLAU GWYBODAETH

*EBLEX (2008) The Mini Feeds Directory*

HCC (2006) Maethu Gwartheg Cig yn Ymarferol

www.feedsdirectory.co.uk